# YMCHWILIAD Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD I GOFRESTRU A DATGAN BUDDIANNAU

## Ymateb gan Transparency International UK

*EN: The English translation of this submission can be found on pages four-five.*

1. Transparency International UK yw cangen y DU o Transparency International, sef prif sefydliad gwrth-lygredd anllywodraethol y byd. Rydym yn codi ymwybyddiaeth am lygredd; eirioli dros ddiwygio cyfreithiol a rheoleiddiol ar lefelau cenedlaethol a rhyngwladol; cynllunio offer ymarferol ar gyfer sefydliadau, unigolion a chwmnïau sydd am frwydro yn erbyn llygredd; a gweithredu fel canolfan flaenllaw ar gyfer arbenigedd gwrth-lygredd. Rydym yn seilio ein heiriolaeth ar ymchwil gadarn, ac, fel elusen gofrestredig, rydym yn annibynnol ac yn anwleidyddol. Rydym yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r Ymchwiliad hwn.
2. Byddem yn nodi bod y gofrestr ar ei ffurf bresennol yn cwmpasu ystod eang a defnyddiol o fuddiannau, a dylai barhau i wneud hynny. Rydym yn cymeradwyo'r Senedd am ehangder a dyfnder y buddiannau a gofrestrir.

### COFRESTRU BUDDIANNAU

3. Mae'r Pwyllgor yn gofyn 5 cwestiwn o dan y pennawd hwn:
    - A oes unrhyw gategorïau neu rannau o gategorïau nad ydynt bellach yn berthnasol?
    - A oes unrhyw gategorïau ychwanegol y dylid eu cynnwys?
    - A yw'r meysydd o fewn pob un o'r categorïau yn casglu'r wybodaeth gywir?
    - Ydy'r gofrestr yn ddigon gweladwy/tryloyw?
    - A yw'r gofynion adrodd o ran amserlen a gwerth yn ddigonol?
4. Byddai Transparency International UK, fel y nodwyd uchod, yn cymeradwyo'r categorïau a gwmpesir ac yn awgrymu eu bod i gyd yn parhau i fod yn berthnasol.
5. Ystyriwn fod y wybodaeth a gesglir yn ddefnyddiol ac yn gymesur.
6. Rydym yn canmol yn arbennig yr amserlenni safonol o dan gategorïau 1 a 2, Rheol Sefydlog 4, ar gyfer oriau bob wythnos, gan alluogi'r data i fod yn gymaradwy ar draws yr Aelodau.
7. Rydym hefyd yn cymeradwyo'r gofyniad o dan gategori 3 i restru'r cleientiaid mewn perthynas ag unrhyw swyddi cyfarwyddwyr neu incwm o dan gategorïau 1 a 2. Mae hyn yn galluogi'r cyhoedd i weld darlun llawn o'r buddiannau y gall Aelodau fod yn eu cynrychioli.
8. Nodwn, o dan Gategori 4, nad yw'n ofynnol i Aelodau restru amcangyfrif o werth y rhodd neu'r lletygarwch. Ar sail cofrestr buddiannau 3ydd Ionawr 2023, mae ein hymchwil yn dangos bod ychydig dros draean yr Aelodau (22 allan o 60) wedi nodi iddynt dderbyn

rhodd neu letygarwch.[1] Mae'r 22 Aelod hyn wedi derbyn 60 o eitemau. Er mwyn sicrhau tryloywder llawn ac yn unol ag arfer gorau, argymhellwn hefyd ei gwneud yn ofynnol rhestru amcangyfrif o werth y rhoddion a lletygarwch.

9. Er nad yw'n effeithio ar gynifer o Aelodau, o dan Gategori 7, gwelwn dair taith, a gymerwyd gan dri Aelod wedi'u nodi yng nghofrestr 3ydd Ionawr 2023.[2] Rydym hefyd yn argymell, yn unol ag arfer gorau, y dylid cofrestru amcangyfrif o werth y teithiau hyn.

10. Mae Transparency International UK yn argymell cyhoeddi pob cofrestr o fuddiannau fel data agored strwythuredig mewn fformat CSV, a gwneud hyn yn hygyrch mewn lleoliad canolog ar y wefan.

11. Dylid gwneud diwygiadau sylweddol cyn gynted â phosibl, ac yn sicr o fewn 30 diwrnod i'r newid ddigwydd. Yn ddelfrydol, dylai'r gofrestr fod yn ddogfen 'fyw', sy'n cael ei diweddaru wrth i newidiadau ddod i rym. Dylid ei hadolygu a'i diweddaru o leiaf bob chwarter.

12. Byddem hefyd yn nodi bod y Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth ynghylch cyflwyno cofrestr lobïo yng Nghymru, a byddem yn cyfeirio at ein cyflwyniadau ysgrifenedig blaenorol. Byddem yn croesawu cofrestr lobïo yng Nghymru, a byddem yn ei gweld yn ategu cofrestr buddiannau'r aelodau.

## DATGAN BUDDIANNAU COFRESTRADWY A PHERTHNASOL

13. Mae'r Pwyllgor yn gofyn 5 cwestiwn o dan y pennawd hwn:
    - A yw'r rheolau ar gyfer datgan buddiannau cofrestradwy yn briodol?
    - A yw'r rheolau ar ddatgan buddiannau perthnasol yn briodol?
    - A yw datganiadau o'r fath yn cynyddu tryloywder ac atebolrwydd trafodion y Senedd?
    - A ellid gwella'r rheolau a/neu'r broses?
    - A ddylai buddiannau gael eu datgan yn rhywle arall, megis wrth gyflwyno cwestiynau ysgrifenedig a busnes arall a gyflwynir?

14. Mae Transparency International yn croesawu datganiadau buddiannau rhagweithiol, cofrestradwy a pherthnasol, a byddai'n annog y Senedd i ehangu'r drefn bresennol i gynnwys cwestiynau ysgrifenedig a busnes arall a gyflwynir hefyd. Gallai hyn fod yn rhywbeth mor syml â blwch ticio sy'n dangos fel 'R' yn y bwletin busnes seneddol sy'n dynodi y dylid edrych ar gofrestr yr aelodau, neu os nad yw'r buddiant yn gofrestradwy, fod hyn ar gael fel nodyn ynghlwm wrth y busnes dan sylw. Byddem yn awgrymu ei bod bob amser yn well bod yn or-ofalus a datgan buddiant posibl, gan fod hyn yn osgoi unrhyw ddryswch neu ganfyddiad diweddarach o ffafriaeth, ffrindgarwch, neu lygredd.

## Y CANLLAWIAU

15. Mae'r Pwyllgor yn gofyn a oes angen unrhyw welliant i'r canllawiau.

16. Mae ystyrlonder yn rhan bwysig o unrhyw gofrestr o fuddiannau – byddai'n ddefnyddiol pe gallai Aelodau fod yn fwy manwl gywir yn eu datganiadau fel yr argymhellir yn y canllawiau – er enghraifft pan fydd yn cynghori nad yw enw e.e. y cwmni y maent yn aelod o'r bwrdd neu fuddiant arall o'r fath yn ddigonol, a dylai fod arwydd o natur busnes y cwmni.

[1] https://senedd.cymru/media/uunlykkx/roi-eng-v2.pdf
[2] https://senedd.cymru/media/uunlykkx/roi-eng-v2.pdf

17. Er y tu hwnt i gylch gwaith y Pwyllgor, byddem hefyd yn awgrymu y dylid ymestyn hyn i gyfarfodydd gweinidogol; dylai'r cofnodion gynnwys manylion yr hyn a drafodwyd mewn unrhyw gyfarfod, ac a oedd gan y gweinidog fuddiant cofrestredig i'w ddatgan.

Ebrill 2023

# STANDARDS OF CONDUCT COMMITTEE INQUIRY INTO THE REGISTRATION AND DECLARATION OF INTERESTS

## Response from Transparency International UK

1. Transparency International UK is the UK-based chapter of Transparency International, the world's leading non-governmental anti-corruption organisation. We raise awareness about corruption; advocate legal and regulatory reform at national and international levels; design practical tools for institutions, individuals and companies wishing to combat corruption; and act as a leading centre of anti-corruption expertise. We base our advocacy on robust research, and, as a registered charity, are independent and non-political. We welcome the opportunity to respond to this Inquiry.

2. We would note that the register as currently configured covers a wide and useful set of interests and should continue to do so. We applaud the Senedd for the breadth and depth of interests registered.

### REGISTERING INTERESTS

3. The Committee asks five questions under this heading:
    - Are there any categories or parts of categories that are no longer relevant?
    - Are there any additional categories that should be captured?
    - Do the areas within each of the categories capture the correct information?
    - Is the register visible/transparent enough?
    - Are the reporting requirements in terms of timeframe and value sufficient?

4. Transparency International UK would, as noted above, applaud the categories covered and would suggest they all remain relevant.

5. We consider the information captured to be useful and proportionate.

6. We particularly commend the standard time frames under category one and two, Standing Order four, of hours per week, enabling the data to be comparable across Members.

7. We also endorse the requirement under category three to list the clients in relation to any directorships or remunerated income under category one and two respectively. This enables the public to be able to see a full picture of the interests Members may be representing.

8. We note that under Category four, Members are not required to list the estimated value of the gift or hospitality. As of the 3rd January 2023 register of interests, our research shows that just over a third of Members (22 out of 60) have listed receiving a gift or hospitality.[3] These 22 Members have accepted 60 events. In the interests of full transparency and according to best practice, we recommend also requiring the estimated value of the gifts and hospitality to be listed.

[3] https://senedd.wales/media/uunlykkx/roi-eng-v2.pdf

9. Whilst not affecting as many Members, under Category seven, we find three trips, taken by three Members listed in the 3rd January 2023 register.[4] We also recommend in accordance with best practice that an estimated value of these trips should be registered.

10. Transparency International UK recommends publishing all registers of interests as structured open data in a CSV format and make this accessible in a central location on the website.

11. Material amendments should be made as soon as possible and certainly within 30 days of the change occurring. Ideally the registers should be a 'living' document, updated as changes take effect. At the very least they should be reviewed and updated quarterly.

12. We would additionally note that the Committee has taken evidence around introducing a lobbying register in Wales and we would refer to our previous written submissions. We would welcome a Welsh lobbying register and would see it as complementing the register of members interests.

## DECLARING REGISTERABLE AND RELEVANT INTERESTS

13. The Committee asks five questions under this heading:

    - Are the rules for declaring registerable interests appropriate?
    - Are the rules on declaring relevant interests appropriate?
    - Do such declarations increase the transparency and accountability of Senedd proceedings?
    - Could the rules and/or process be improved?
    - Should interests be declared elsewhere, such as when tabling written questions and other tabled business?

14. Transparency International welcomes proactive declaration of interests, both registrable and relevant and would encourage the Senedd to expand the current regime to also cover written questions and other tabled business. This could be something as simple as a tick box that shows as an 'R' in the parliamentary business bulletin denoting that the member's register should be viewed, or if the interest is not registrable, available as a note attached to the business in question. We would suggest it is always preferable to err on the side of caution and declare a possible interest as this avoids any later confusion or perception of favouritism, cronyism, or corruption.

## THE GUIDANCE

15. The Committee asks if there is any improvement needed to the guidance.

16. Meaningfulness is an important part of any register of interests – it would be helpful if Members could be more precise in their declarations as recommended by the guidance – for instance when it advises that the name of e.g. the company they are a board member of or other such interest is insufficient and there should be an indication of the nature of the business of the company.

17. Whilst beyond the remit of the Committee, we would also suggest this should be extended to ministerial meetings, the record of which should include details of what was discussed at any meeting and if the minister had a registered interest to declare.

[4] https://senedd.wales/media/uunlykkx/roi-eng-v2.pdf

April 2023